Comisiynydd Heddlu a Throseddu
Dyfed-Powys
Police and Crime Commissioner

Mae'r ddogfen hon ar gael yn Gymraeg yn ogystal â Saesneg.

This document is available in Welsh as well as English.

**Cylch Gorchwyl**
**Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys**

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r Cylch Gorchwyl a'r Fframwaith Llywodraethu ar gyfer Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Lleol Dyfed-Powys (BCTDP).

**Gweledigaeth Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys**
Gwella effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd y system cyfiawnder troseddol yn Nyfed-Powys, gan gynnwys gwella'r profiad i ddioddefwyr a thystion a magu ffydd yn y system gyfan.

Mae Cydraddoldeb, Amrywiaeth a Chynhwysiant wrth galon y bwrdd cyfiawnder troseddol lleol ar gyfer ardal Dyfed-Powys ddiogel, gyfiawn a chynhwysol. Mae dathlu amrywiaeth ardal Dyfed-Powys a sicrhau'r egwyddorion cydraddoldeb a chynhwysiant yn sail i'r holl waith a gynhelir.

**Meysydd blaenoriaeth**
Ar gyfer 25 i 2029, mae'r Bwrdd wedi mabwysiadu dwy brif flaenoriaeth, sef:
1. Dioddefwyr a Thystion
2. Pobl sy'n Troseddu

Bydd y Bwrdd yn adolygu'r targedau cyflawnadwy sy'n tanategu'r blaenoriaethau hyn yn flynyddol, ond bydd y blaenoriaethau rhychwantol yn parhau'r un fath ar gyfer y cyfnod pedair blynedd sy'n cyd-fynd â chyfnod y Cynllun Heddlu a Throseddu.

Lle bo'n briodol, bydd is-grwpiau bwrdd perthnasol yn cael eu creu a fydd yn gyfrifol am gynllunio ar y cyd lleol, gweithredu a chydlynu cyflenwi blaenoriaethau BCTDP.

Bydd Bwrdd Dyfed-Powys yn canolbwyntio ar flaenoriaethau lleol o fewn y meysydd hyn, ac ar yr un pryd, yn bwydo i mewn i gynllun Cymru gyfan.

**Swyddogaeth BCTDP**
Dod â phartneriaid allweddol a chynrychiolwyr uwch asiantaethau Cyfiawnder Troseddol sydd yn gweithio o fewn Dyfed-Powys ynghyd, gan ganiatáu ar gyfer cydweithio a gweithio gyda phartneriaid. Mae BCTDP yn gyfrifol am y gwasanaeth a roddir i ddioddefwyr a thystion ac yn atebol amdano, yn ogystal â chyflwyno'r targedau cyfiawnder troseddol yn yr ardal hon, gwelliannau wrth gyflwyno cyfiawnder a sicrhau hyder y cyhoedd.

Bydd y Bwrdd yn cefnogi'r Gwasanaeth Cyfiawnder Ieuenctid i gyflenwi ei Gynlluniau Cyfiawnder Ieuenctid er mwyn sicrhau canlyniadau gwell ar gyfer plant a phobl ifainc. Bydd hyn drwy ymgysylltu, nodi heriau rhanbarthol sy'n gysylltiedig â chyfiawnder troseddol, datrys heriau rhanbarthol a datrys problemau, rhannu arfer da, a chefnogi cydlynu lleol a chenedlaethol gyda'r systemau cyfiawnder

oedolion. Mae cynrychiolydd rhanbarthol o'r Tîm Troseddau Ieuenctid yn eistedd ar y BCTLl ac yn gweithredu fel cwndid er mwyn sicrhau bod Cyfiawnder Ieuenctid yn cael ei ystyried yn nhrafodaethau'r Bwrdd.

**Aelodaeth**

- Comisiynydd Heddlu a Throseddu Dyfed-Powys
- Heddlu Dyfed-Powys
- Gwasanaeth Erlyn y Goron
- Gwasanaeth Llysoedd a Thribiwnlysoedd Ei Fawrhydi
- Gwasanaeth Carchardai a Phrawf Ei Fawrhydi
- Y Tîm Troseddau Ieuenctid
- Yr Asiantaeth Cymorth Cyfreithiol
- Y Gwasanaeth Tystion Llys
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Llywodraethwr Carchar Abertawe
- Bwrdd Cyfiawnder Troseddol Cymru
- Unigolion eraill, fel aelodau neu ar sail ad hoc, fel yr ystyrir yn briodol

Dylai fod gan bob cynrychiolydd yr awdurdod i wneud penderfyniadau ar gyfer ei asiantaeth benodedig yn y cyfarfodydd bwrdd. Dylai pob cynrychiolydd newydd gael y pwerau dirprwyedig i ymrwymo ei asiantaeth i unrhyw gytundeb a wneir yn y cyfarfod, gan sicrhau, felly, bod BCTDP yn parhau i fod yn fodd effeithiol ar gyfer cyflawni'r nodau a'r blaenoriaethau'n amserol.

Bydd aelodau'r Bwrdd yn:

- Ymroi i fynychu cyfarfodydd y Bwrdd, gan anfon eilyddion dan amgylchiadau arbennig yn unig.
- Pan fo'n briodol, gwahodd cynrychiolwyr o sefydliadau neu asiantaethau eraill ar gyfer eitemau penodol ar yr agenda, cyfarfodydd neu gyfres o gyfarfodydd. Ni fydd hawl i bleidleisio gan y cynrychiolwyr hyn.
- Rhannu data a dadansoddiadau fel sy'n briodol a gofynnol i alluogi BCTDP i gyflawni ei rôl.
- Gyrru'r gweithredu rhwng cyfarfodydd.
- Ar ran eu sefydliad, cyfeirio materion gwasanaeth cyfiawnder troseddol lleol sy'n dod i'r amlwg at Fwrdd Cyfiawnder Troseddol Dyfed-Powys i'w trafod.
- Gweithio gyda chymheiriaid lleol, rhanbarthol a chenedlaethol yn ôl yr angen er mwyn nodi a goresgyn rhwystrau tuag at wella cyflwyno cyfiawnder.
- Bod yn atebol, i'r Bwrdd, am unrhyw waith a wneir o fewn is-grwpiau BCTLl.
- Hyrwyddo gwaith y BCTLl o fewn eu sefydliad.
- Cefnogi Cynllun Gweithredu Hil Cyfiawnder Troseddol Cymru Gyfan yn llwyr, gan sicrhau bod ei flaenoriaethau wedi'u gwreiddio ym mhopeth y mae'r BCTLl a'i sefydliadau'n gwneud.

- Cymryd cyfrifoldeb personol am ddatblygiad unigol ac ymwybyddiaeth o faterion gwrth-hiliaeth.
- Sicrhau bod data/gwybodaeth a rennir yn cael ei ddefnyddio at y diben y bwriadwyd/cymeradwywyd ef yn unig ac nid yn cael ei rannu yn ehangach/at ddibenion eraill heb gytundeb datganedig yr asiantaeth sy'n berchen y data/gwybodaeth.
- Cyfeirio at weinyddwr y Bwrdd i geisio cyngor ac arweiniad yn achos unrhyw amheuaeth neu bryderon ynghylch cyfrifoldebau neu ddefnydd awdurdodedig o'r data a/neu wybodaeth.

**Gweinyddu'r Bwrdd**

- Hwylusir gweinyddu'r Bwrdd gan y Cadeirydd.
- Cynhelir cyfarfodydd bob chwarter (o leiaf), i sicrhau cynnydd parhaol yn erbyn blaenoriaethau.
- Mewn ymgynghoriad â phartneriaid o'r gwasanaeth cyfiawnder troseddol, cytunir ar Gynllun Cyflenwi neu Gynllun Gweithredu ffurfiol a fydd yn nodi blaenoriaethau strategol y Bwrdd, sut y bydd yn bodloni ei flaenoriaethau, a sut y bydd yn mesur llwyddiant.
- Bydd cyfarfodydd yn gweithio i agenda cyson wedi'i strwythuro sy'n cyflawni diben busnes y cyfarfod.
- Gofynnir am eitemau ar gyfer yr agenda bythefnos cyn y cyfarfodydd Bwrdd.
- Cyfrifoldeb Gweinyddwr y Bwrdd, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, fydd rheoli eitemau'r agenda ar gyfer y Bwrdd.
- Dosberthir yr agenda, dogfennau ategol ac adroddiadau amlygu i bob aelod o'r Bwrdd saith diwrnod cyn y cyfarfod Bwrdd.
- Y Cadeirydd fydd yn penderfynu pa eitemau a ganiateir dan 'Unrhyw Fater Arall.'
- Cynhyrchir cofnodion pob cyfarfod neu grynodeb o drafodaeth er mwyn sicrhau bod adlewyrchiad cywir o'r drafodaeth a'r camau gweithredu y cytunwyd arnynt.

**Cadeirydd y Bwrdd**

Mae Deddf Diwygio'r Heddlu a Chyfrifoldeb Cymdeithasol 2011 yn nodi yn y gyfraith y ddyletswydd ddwyochrog ar Gomisiynwyr Heddlu a Throseddu ac asiantaethau Cyfiawnder Troseddol eraill i gydweithio er mwyn darparu System Cyfiawnder Troseddol effeithiol ac effeithlon ar gyfer ardaloedd heddlu.

Ym mis Mawrth 2022, nododd yr Adolygiad CHTh (Rhan 2) a gynhaliwyd gan y Swyddfa Gartref bod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol yn hanfodol ar gyfer grymuso Comisiynwyr Heddlu a Throseddu â'r arfau i ddod â phartneriaid cyfiawnder troseddol at ei gilydd er mwyn mynd i'r afael â throsedd yn effeithiol. Yn unol â'r argymhellion a wnaed gan yr Adolygiad, mae cyfrwng deddfu addas

yn cael ei geisio i osod Byrddau Cyfiawnder Troseddol Lleol ar sylfaen statudol a gorfodi CHTh i weithredu fel Cadeirydd.

- Y Cadeirydd fydd yn gyfrifol am wneud pob trefniant sydd angen i gael diogelu cynrychiolwyr penodol sydd eu hangen gan y Bwrdd.
- Mae gan y Cadeirydd awdurdod dirprwyedig i alw cyfarfodydd ychwanegol ar unrhyw adeg i fynd i'r afael ag unrhyw beryglon eithriadol neu faterion sydd angen ymgynghoriad a chytundeb aelodau BCTDP, neu drwy unrhyw fecanwaith arall, a ystyrir yn addas.
- Gosod, gweithredu, ac adolygu Cylch Gorchwyl y BCTLl.
- Gosod a dilyn agenda, arwain a chynnal trefn yn ystod cyfarfodydd.
- Mewn ymgynghoriad â phartneriaid GCT, sefydlu Cynllun Cyflenwi BCTLl cytûn neu Gynllun Gweithredu ffurfiol, a dal partneriaid i gyfrif am gyflenwi lle bo'n briodol pan gytunir ar gamau gweithredu ar y cyd.
- Sicrhau bod y Bwrdd yn penderfynu sut i ymgysylltu'n gadarnhaol â rhaglenni cenedlaethol perthnasol.
- Lle bo'n briodol, meithrin trafodaeth am benderfyniadau a gymerir gan sefydliadau cyfiawnder troseddol unigol sy'n debygol o effeithio er effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd gweithredol y GCT lleol.
- Lle bo'n briodol, trafod cynlluniau strategol sefydliadau cyfiawnder troseddol unigol fel bod modd nodi cyd-ddibyniaethau a chysoni cynlluniau.
- Annog sefydliadau i rannu canfyddiadau arolygiadau/adroddiadau lle y byddai ystyriaeth draws-GCT neu ymateb traws-GTC yn fuddiol.
- Adolygu cyfleoedd i ariannu a chomisiynu gweithgarwch partneriaeth ar y cyd, lle y byddai hynny o fudd i'r GCT cyfan.
- Annog cydweithredu â phartneriaid perthnasol er mwyn cydymffurfio â'r Cod Dioddefwyr.

**Is-gadeirydd y Bwrdd**

Adolygir sefyllfa'r Is-gadeirydd bob pedair blynedd. Yr Is-gadeirydd fydd yn ysgwyddo cyfrifoldebau'r Cadeirydd yn ei absenoldeb. Dewisir yr Is-gadeirydd o blith aelodau craidd BCTDP.

Y Prif Gwnstabl Cynorthwyol fydd yr Is-gadeirydd ar gyfer 2025-29.

**Cyfarfodydd**

- Bydd cworwm ar gyfer cyfarfod Bwrdd yn cynnwys o leiaf pedwar aelod o'r Bwrdd neu eu heilyddion, fel yr amlinellir uchod.
- Hanfod ymagwedd BCTDP tuag at wneud penderfyniadau bydd pwyslais cryf ar gydweithio a gweithio gyda phartneriaid.
- Bydd pob aelod BCTDP yn cynnal yr ymagwedd gydweithiol hon ac yn ymroi'n llwyr i gyflwyno'r camau newid busnes a gwella perfformiad o fewn Cynllun

Cyflenwi BCTDP.

**Y Swyddfa Gartref/Y Weinyddiaeth Gyfiawnder – Cyfarwyddyd Rhannu Data ar gyfer y System Cyfiawnder Troseddol**

data-sharing-guidanc
e-criminal-justice-syst